**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**20 Mehefin 2016**

## PERFFORMIAD ARIANNOL 2015-2016

**Adroddiad gan Dawn Docx, Trysorydd dros dro**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi adolygiad i'r Aelodau o berfformiad ariannol yr Awdurdod yn 2015-16.

2 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio ar 6 Mehefin 2016 i sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar yr adroddiadau ariannol a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub yn seiliedig ar eu canfyddiadau. Nid oedd gan Aelodau'r Pwyllgor Archwilio unrhyw sylwadau pwysig ac nid oeddent yn gallu canfod unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad, a byddent yn argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod.

## Cyflwyniad

3 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gweithgarwch ariannol yn y flwyddyn 2015-16 er mwyn sicrhau bod yr Aelodau'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol yr Awdurdod.

4 Mae rhan gyntaf yr adroddiad yn adolygu'r gwariant refeniw yn 2015-16 o gymharu â'r gyllideb, ac mae'r dadansoddiad ariannol wedi'i gynnwys yn Atodiad A. Mae ail ran yr adroddiad yn rhoi sylwadau ar y Cronfeydd wrth Gefn a'r Darpariaethau sydd gan yr Awdurdod; mae manylion y darpariaethau a'r newidiadau arfaethedig i'w cael yn Atodiad B. Mae adran nesaf yr adroddiad yn edrych ar y cynlluniau a gafodd arian grant, gyda dadansoddiad manwl yn Atodiad C. Mae rhan olaf yr adroddiad yn trafod y gweithgarwch cyfalaf yn y flwyddyn; gellir cael y manylion yn Atodiad D.

## Cefndir

5 Roedd yr Aelodau'n cytuno mai'r flaenoriaeth wrth osod y gyllideb oedd cadw lefel gyfredol y gwasanaeth, ac ni ddylai unrhyw gynnydd yn y gyllideb fod yn fwy na £1 y pen yn ychwanegol yng Ngogledd Cymru – sy'n cyfateb i £699k ar sail yr amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer 2015.

6 £750k oedd y pwysau anochel ar y gyllideb yn 2015-16, a chytunodd yr Aelodau i weithredu nifer o opsiynau a fyddai'n cynhyrchu arbedion heb orfod effeithio ar ddarparu gwasanaethau. Cafodd y cynnydd yn y gyllideb ei gymeradwyo ar £337k ond er mwyn lleihau'r effaith ar yr awdurdodau cyfansoddol, cafodd hyn ei leihau i £114k, sef 0.36% o gynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cytunwyd y byddai'r arian ychwanegol unigol i ymorol am y diffyg o £223k yn dod o gronfeydd wrth gefn.

## Gweithgarwch Refeniw

### Gweithwyr

7 Mae cyfran fawr o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymwneud â chyflogau; 70% yn 2015-16. Un o'r opsiynau a gyflwynwyd er mwyn cael arbedion oedd gostwng nifer y swyddi rheolwyr gweithredol, a gwnaethpwyd hyn o fewn y flwyddyn heb effeithio ar y gwasanaethau, a hynny'n dilyn ail-strwythuriad i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn fwy effeithlon.

8 Mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant ar gyflogau'n ymwneud â diffoddwyr tân y system RDS, sef £568k. Mae'r Aelodau wedi cael gwybod am yr anawsterau o ran recriwtio diffoddwyr tân i weithio ar y system RDS, ac er gwaethaf ymgyrch recriwtio mae nifer y llu yn dal yn llai na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer ac mae hynny wedi arwain at arbedion yn y ffioedd cadw a thaliadau ymarfer. Er mwyn lliniaru'r effaith, mae'r Gwasanaeth wedi cyflogi nifer o ddiffoddwyr tân gwledig amser cyflawn i ddarparu gofal ar orsafoedd y system RDS a'r gorsafoedd amser cyflawn fel y bo'r angen.

9 Mae diffoddwyr tân amser cyflawn gwledig newydd ar gontract i weithio 21 awr yr wythnos o leiaf, gyda'r disgwyliad yn wreiddiol y byddent yn gweithio 30 awr yr wythnos ar gyfartaledd. Ond bu mwy o ofyn i ddiffoddwyr tân amser cyflawn gwledig ddarparu gofal ar

orsafoedd amser cyflawn oherwydd ymddeoliad ac i ymorol am gyfnod mamolaeth. Bu hyn yn angenrheidiol wrth geisio recriwtio a hyfforddi diffoddwyr tân newydd. Er mwyn darparu'r gofal hwn, mae'r diffoddwyr tân amser cyflawn gwledig wedi bod yn gweithio hyd at 42 awr yr wythnos. Mae'r oriau ychwanegol a'r swyddi newydd wedi arwain at orwariant amcangyfrifiedig o gymharu â'r gyllideb wreiddiol; telir y costau ychwanegol gydag arbedion yn y cyllidebau ar gyfer y system RDS a diffoddwyr tân amser cyflawn.

10 Mae'r gyllideb ar gyfer diffoddwyr tân amser cyflawn yn dangos £276k o danwariant o gymharu â'r gyllideb wreiddiol. Wrth i ddiffoddwyr tân adael neu ymddeol, bu oedi rhwng eu hymadawiad a recriwtio diffoddwyr tân yn eu lle. Fel y soniwyd uchod, darparwyd y gofal hwn gan ddiffoddwyr tân amser cyflawn gwledig.

11 Mae'r tanwariant yng nghyllideb y Prif Swyddogion yn ymwneud â swydd wag Prif Swyddog Tân Cynorthwyol.

12 Mae gorwariant ar y gyllideb ar gyfer pensiynau oherwydd rhai ymddeoliadau ar sail afiechyd yn ystod y flwyddyn; ni fu'r rhain yn rhan o'r amcangyfrif gwreiddiol ac ni chânt eu talu drwy'r cyfrif pensiynau.

13 Mae gorwariant ar gyllideb hyfforddi staff oherwydd pwysau ychwanegol yn dilyn recriwtio 10 prentis a'r cynllun peilot cyd-ymateb. Mae recriwtio staff ychwanegol hefyd wedi golygu bod costau hysbysebu wedi bod yn uwch na'r gyllideb wreiddiol.

14 Mae'r gorwariant ar y gyllideb ar gyfer crefftwyr peirianneg oherwydd cyflogwyd prentis mecanig fel bod gan y Gwasanaeth yr adnoddau ychwanegol i wneud mwy o waith cynnal a chadw cerbydau yn fewnol.

**Safleoedd**

15 Mae gorwariant yn y gyllideb atgyweirio a chynnal a chadw oherwydd i rai o'r eitemau bychain o wariant gael eu hailddosbarthu o'r cyfalaf i'r refeniw. Bydd hyn yn arwain at rywfaint o arbedion yn y blynyddoedd i ddod ar ffioedd ariannu cyfalaf oherwydd bydd y costau refeniw'n llai. Peth darbodus hefyd oedd dileu'r costau am ad-leoli safle Llys Conwy, dyma £60k o'r gorwariant.

16 Mae’r costau ynni wedi codi’n sylweddol dros y blynyddoedd, ac er mwyn lleihau’r ynni a ddefnyddir a’r costau, gosodwyd mesurau sy’n cael eu goruchwylio gan swyddog monitro ynni (swydd ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru). Mae’r mesurau wedi arwain at sicrhau bod y costau ynni dan y gyllideb ac yn is na gwariant y flwyddyn flaenorol (£30k yn is na’r llynedd).

17 Bu cynnydd hefyd o ran defnyddio pethau glanhau ar ôl cyflogi contractwyr i wneud y gwaith glanhau ar orsafoedd tân ac mae’r gost o gasglu sbwriel wedi codi.

**Cludiant**

18 Yn gyffredinol, mae yna £159k o danwariant ar y gyllideb safleoedd. Mae’r gorwariant ar y gyllideb atgyweirio a chynnal a chadw oherwydd cynnydd yn y gwaith offeru sydd wedi arwain at brynu cyfarpar ychwanegol. Gwneir mwy o waith yn fewnol ond bu cyfnod pontio pryd y bu angen defnyddio contractwyr allanol i sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud o fewn y terfynau amser. Gwrthbwyswyd y costau ychwanegol hyn gan arbedion ar danwydd a threuliau teithio oherwydd prisiau tanwydd is a llai o deithio yn dilyn y newidiadau o ran cynnal archwiliadau diogelwch tân yn y cartref.

**Cyflenwadau**

19 Mae’r Awdurdod wedi prynu gwisgoedd a chyfarpar gweithredol newydd dan fframwaith caffael gwisgoedd Cymru gyfan y Pwyllgor Materion Cenedlaethol, felly prynwyd rhai eitemau ymlaen llaw er mwyn sicrhau’r arbedion wrth gaffael. Arweiniodd hyn at £25k o orwariant ar wisgoedd a £25k ar gyfarpar gweithredol.

20 Mae’r gorwariant ar gostau Cyfrifiaduron wedi digwydd yn bennaf oherwydd y costau ychwanegol sy’n gysylltiedig â’r contract cenedlaethol newydd ar gyfer system cysylltiadau radio. Bydd yr Aelodau’n ymwybodol o’r prosiect drwy bapur a gyflwynwyd i’r Panel Gweithredol ar 20 Gorffennaf 2015. Yn y papur, esboniwyd manylion y prosiect cysylltiadau ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan, ynghyd â’r posibilrwydd o risgiau sylweddol i’r Awdurdod. Cytunodd yr Aelodau y llynedd i neilltuo £300k i ymorol am rai o’r costau ychwanegol sy’n gysylltiedig â throsglwyddo i’r system newydd. Ond, ariannwyd y costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn o’r gyllideb refeniw. Byddai’n ddarbodus cadw’r gronfa a glustnodwyd er mwyn ymorol am gostau pellach a ddaw gyda’r prosiect.

21 Mae tanwariant ar gostau Cysylltiadau oherwydd costau is ar gontractau ffonau symudol, llinellau tir a meddalwedd cysylltiadau.

22 Mae gorwariant ar Dreuliau Cynadleddau a Chynhaliaeth oherwydd, yn rhannol, y ffordd o drin Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl at ddiben cyfrifyddu. Mae'r orsaf wedi ei sefydlu fel cyfrif masnachu. Mae unrhyw orwariant dros incwm yn cael ei roi felly ar y cyfrif refeniw. £2k fydd hynny eleni. Hefyd, mae cynnydd yn y cymhwysedd am hawliadau cynhaliaeth oherwydd y pellteroedd ychwanegol sy'n cael eu teithio a'r oriau sy'n cael eu gweithio gan ddiffoddwyr tân sy'n darparu gofal ar orsafoedd gwledig.

23 Mae ffioedd banciau wedi cynyddu'n sylweddol oherwydd bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o fenthyciadau tymor byr i ariannu'r rhaglen gyfalaf. Mae defnyddio benthyciadau tymor byr o'r farchnad wedi arwain at arbedion sylweddol ar daliadau llog ond er mwyn cael y benthyciadau hyn, mae angen rhai ffioedd broceru.

24 Mae gwariant ar gyfathrebu corfforaethol yn uwch na'r gyllideb oherwydd y cynnydd yng nghost gwaith cyfieithu gan asiantaethau allanol a gyflogir gan fod staff ar gyfnod mamolaeth.

25 Mae £78k o orwariant ar brosiectau arbennig megis 'Cyd-Grŵp y Gwasanaethau Brys' (JESG), mentrau'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol, y rhaglen canllawiau gweithredol cenedlaethol (*national operational guidance programme*) a'r cynllun peilot cyd-ymateb. Mae'r gorwariant wedi digwydd yn bennaf oherwydd y costau sy'n gysylltiedig â'r cynllun peilot cyd-ymateb. Menter newydd yw hon felly nid oedd unrhyw gyllideb wedi'u dyrannu iddi yn ystod y broses o osod y gyllideb gan nad oedd y costau'n hysbys ar y pryd. Oherwydd tanwariannau mewn rhannau eraill, gellir talu'r costau hyn o fewn y gyllideb yn gyffredinol.

**Asiantaeth**

26 Mae'r gost i'r Awdurdod am Lanhau Adeiladau wedi cynyddu gan fod contract glanhau wedi'i drefnu i lanhau'r holl orsafoedd. O'r blaen, roedd diffoddwyr tân y system RDS yn gwneud y gwaith glanhau ar rai gorsafoedd y system RDS a thelid lwfans iddynt am gyflawni'r dyletswyddau. Caiff rhan o'r costau ychwanegol eu talu gydag arbedion ar lwfansau glanhau.

## Cyllido Cyfalaf

27 Mae ffioedd dyledion sy'n gysylltiedig â'r rhaglen gyfalaf yn is na'r gyllideb wreiddiol oherwydd defnyddir benthyciadau tymor byr yn hytrach na benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac ail-amserlennwyd y rhaglen gyfalaf ar gyfer gwaith adeiladu yn 2014/15. Mae'r ffioedd cyfalaf am ad-dalu dyled yn is na'r gyllideb gan fod y gyllideb wedi'i gosod yn seiliedig ar y sefyllfa alldro yn Rhagfyr 2014. Sicrhawyd costau llog is hefyd drwy 'fenthyca'n fewnol', sef defnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau i ariannu'r rhaglen yn hytrach na threfnu benthyciadau newydd.

## Incwm

28 Mae'r incwm yn gyffredinol fymryn yn uwch na'r gyllideb wreiddiol. Cafwyd ad-daliad o £34k oherwydd newidiadau i'r lwfansau treth ar gyfer lesoedd gweithredu. Mae hyn yn ymwneud â lesoedd blaenorol oedd gan yr Awdurdod. Cafwyd incwm ychwanegol hefyd ar gyfer swyddi sy'n cael eu hariannu i weithio gyda dau awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. Mae'r incwm am alwadau gwasanaethau arbennig wedi cynyddu oherwydd ail-godi tâl ar Asiantaeth y Cefnffyrdd am ddigwyddiad mawr yr aeth y Gwasanaeth ato ym Mawrth 2016.

29 Roedd llog ar falansau'n is na'r gyllideb wreiddiol oherwydd y cyfraddau llog isel ac oherwydd bod cronfeydd wrth gefn a balansau'n cael eu defnyddio i ariannu'r rhaglen gyfalaf.

## Tanwariant

30 Er mwyn lleihau costau yn y blynyddoedd i ddod, cytunwyd i ariannu peth o'r gwaith cyfalaf ar asedau tymor byr drwy gyfraniad gan y refeniw, yn enwedig cerbydau ysgafn a chyfarpar ar gyfer y fflyd. Bydd yr arbedion a ddaw yn rhai ar ad-dalu dyledion a chostau benthyca. Cytunodd yr Aelodau yn y cyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub ym mis Mawrth i defnyddio unrhyw danwariannau i ariannu'r rhaglen gyfalaf. £641,158 yw hyn yn 2015-16.

31 Roedd y gyllideb wreiddiol yn cynnwys cyfraniad o £223k o'r cronfeydd wrth gefn. Oherwydd y sefyllfa gyffredinol, ni fydd gofyn defnyddio'r gronfa honno ar hyn o bryd.

## Cronfeydd a Glustnodwyd

32 Ar 31 Mawrth 2016, nid yw balans y cronfeydd a glustnodwyd wedi newid. Caiff y cronfeydd eu cario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf oherwydd bydd eu hangen o hyd. Isod, ceir manylion y prif gynlluniau y mae angen eu hariannu.

33 Cyflwynwyd adroddiad i'r Panel Gweithredol ar 27 Hydref 2014 i roi gwybod i'r Aelodau am y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r contract cenedlaethol newydd ar gyfer cysylltiadau radio. Mae rhai o gostau'r prosiect wedi cael eu hariannu o'r gyllideb refeniw yn 2015-16. Ond gan fod y prosiect yn dal i fynd yn ei flaen, mae angen sicrhau bod arian ar gael i ymorol am y risg y gallai'r Gwasanaeth gael costau ychwanegol, fel yr adroddwyd i'r Aelodau, yn y meysydd a ganlyn:-

a. Os na chyflawnir yr amserlenni ar gyfer trosglwyddo, efallai y bydd angen ymestyn y contract presennol, a gallai hynny fod yn llawer drutach.
b. Mae'r system gyfredol yn cael ei hariannu'n rhannol drwy grant gan Lywodraeth Cymru, ac nid oes sicrwydd y bydd hyn yn parhau.

34 Cytunodd yr Aelodau i neilltuo £300k i ymorol am unrhyw gostau ychwanegol. Caiff y gronfa hon ei chario drosodd fel rhan o'r cronfeydd a glustnodwyd.

35 Sefydlwyd cronfa wrth gefn y llynedd yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ostwng y grant ar gyfer archwiliadau diogelwch tân yn y cartref. Mae 50% yn llai o gyllid ar gyfer 2016-17, ac nid ydym yn gwybod a fydd y cyllid yn parhau ar ôl eleni. Felly, doeth fyddai cario'r gronfa hon drosodd i ariannu gwariant yn y dyfodol.

## Cronfeydd Cyffredinol

36 Y diffiniad o gronfa wrth gefn yw 'gweithred wirfoddol gan yr Awdurdod i neilltuo adnoddau ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol'. Roedd yr Awdurdod yn dal £1,817k mewn cronfa wrth gefn ar 1 Ebrill 2015 a thrwy reoli'r gyllideb yn effeithiol, nid yw wedi gorfod defnyddio'r gronfa hon i ariannu gwariant yn 2015-16.

37 Ar ôl adolygu'r darpariaethau sydd gan yr Awdurdod, mae'r rhan fwyaf o'r arian wedi cael ei drosglwyddo i'r gronfa gyffredinol. Trafodir hyn yn fanylach isod. O ganlyniad i hyn, mae'r gronfa gyffredinol wedi cynyddu £863k, a'r balans ar 31 Mawrth 2016 yw £2,680k.

38 Peth darbodus i'r Awdurdod yw cadw Cronfa Gyffredinol i ymorol am unrhyw ymrwymiadau amodol a allai godi ac i gynorthwyo gyda'r gwaith o gynllunio ar gyfer y dyfodol er mwyn lliniaru cynnydd yn y gyllideb.

## Cronfa Gyfalaf

39 Sefydlwyd y gronfa gyfalaf i'w defnyddio i ariannu rhan o'r rhaglen gyfalaf er mwyn gallu gwneud arbedion drwy leihau costau dyledion cyllidebau refeniw yn y dyfodol. Eleni, defnyddiwyd £340k i ariannu'r rhaglen gyfalaf i leihau costau dyledion yn y dyfodol.

## Darpariaethau

40 Mae'r Awdurdod wedi gallu cadw darpariaethau erioed. Darpariaeth yw 'arian wedi ei neilltuo pan fo gan yr Awdurdod ymrwymiad yn y presennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol (cyfreithiol neu ddeongliadol), a'i bod yn debygol y bydd setliad yn cael ei wneud rywbryd yn y dyfodol'. Isod, rhoddir manylion y darpariaethau a'r newidiadau i'r darpariaethau hynny.

41 Mae'r Awdurdod yn dal "Darpariaeth Bensiynau" i ymorol am daliadau i'r gronfa bensiynau i ariannu ymddeoliadau ar sail afiechyd, ac i ymorol am gostau unrhyw lwmpsymiau ar sail afiechyd nad ydynt yn dod dan y cynllun pensiwn. Ni fu unrhyw symudiad yn y ddarpariaeth eleni oherwydd bu'n bosibl ariannu'r costau hyn eleni o'r gyllideb refeniw. Gosodwyd y ddarpariaeth wreiddiol ar £269k ond yn dilyn adolygiad, gostyngwyd hyn i £100k. Defnyddir y ddarpariaeth i ymorol am gyfraniad yr Awdurdod i'r gronfa bensiynau ar gyfer ymddeoliadau ar sail afiechyd. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r taliadau lwmp-swm afiechyd yn cael eu gwneud o'r cynllun pensiwn oherwydd bod mwyafrif helaethach o ddiffoddwyr tân y system RDS yn aelodau o'r cynllun pensiwn erbyn hyn felly nid oes gofyniad mwyach i ddal cymaint o ddarpariaeth.

42 O ganlyniad i'r setliad rhwng y cyflogwyr cenedlaethol ac Undeb yr FBU yn dilyn yr achos Gweithwyr Rhan Amser (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) yn 2006, mae iawndal wedi cael ei dalu i'r holl ddiffoddwyr cymwys o'r system RDS. Yn 2012-13, cafodd £505k ei dalu allan. Roedd taliadau'n dal i gael eu gwneud yn 2013-14, a bu rhai hawliadau yn 2014-15. Ni fu unrhyw symudiad ar y ddarpariaeth yn 2015-16 felly tybir bod yr holl ymrwymiadau wedi cael eu talu erbyn hyn. Mae'r balans wedi cael ei drosglwyddo i'r gronfa gyffredinol felly.

43 Sefydlwyd darpariaeth gwerth £667k ar gyfer hawliadau pensiwn ôl-weithredol y system RDS i ymorol am gyfraniad y cyflogwr i'r cynllun ar gyfer yr holl staff a fanteisiodd ar y cyfle i ôl-ddyddio eu gwasanaeth pensiynadwy. Fodd bynnag, mae'r llywodraeth ganolog wedi penderfynu erbyn hyn fod y costau ychwanegol i'r gwasanaethau tân ac achub yn cael eu talu yn y dyfodol drwy newid cyfraniad y cyflogwr yn dilyn adolygiad actiwaraidd. Bydd codiadau i gyfraniad y cyflogwr i'r cynllun pensiwn yn cael ei weithredu yn 2017-18. Oherwydd y newid yn y cyllid, nid oes gofyn mwyach i ddal y ddarpariaeth hon ac mae'r balans wedi cael ei drosglwyddo i'r gronfa gyffredinol.

## Cynlluniau sy'n cael Arian Grant

44 Mae'r Awdurdod wedi cael arian ar gyfer nifer o gynlluniau, yn bennaf gan Lywodraeth Cymru; £1.84 miliwn yw cyfanswm yr arian a gafwyd. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r manteision i'r gymuned o ganlyniad i'r cynlluniau hyn, gan gynnwys cynllun y Ffenics, gosod larymau mwg am ddim, a'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol. Ceir rhestr gynhwysfawr o'r cynlluniau yn Atodiad C.

## Gweithgarwch Cyfalaf

45 Cafodd y gyllideb gyfalaf wreiddiol ei gosod yn Rhagfyr 2014, ac roedd yn seiliedig ar wariant newydd a phrosiectau'n cario drosodd ers y blynyddoedd blaenorol.

46 Ar ôl cau cyfrifon 2014-15, cafodd y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2015-16 ei diwygio er mwyn ymgorffori unrhyw gynlluniau a oedd wedi cael eu hail-amserlennu ers 2014-15. Yna, cafodd y gyllideb ei chynyddu £1.38 miliwn i £12.18 miliwn.

47 Roedd tanwariant ar y gyllideb ar gyfer gwaith cynnal a chadw yn yr arfaeth a mân waith adeiladu gan fod rhai eitemau gwariant bychan wedi cael eu trosglwyddo i'r refeniw am y rhesymau a eglurir ym mharagraff 14 uchod.

48 Yn 2015-16, cafodd nifer o brosiectau mawr ar orsafoedd tân eu cwblhau, neu roeddent bron â chael eu cwblhau, sef Wrecsam, Tywyn, Nefyn a Glannau Dyfrdwy. Cafodd yr holl waith ei gwblhau o fewn y gyllideb neu'n agos at y gyllideb ddiwygiedig a osodwyd. Mae Atodiad D yn dangos y gwariant gwirioneddol o gymharu â'r gyllideb.

49 Roedd y gwariant ar gerbydau ysgafn yn uwch na'r gyllideb a osodwyd oherwydd bod angen cerbydau ychwanegol ar gyfer y diffoddwyr tân gwledig amser cyflawn. Roedd y gwariant ychwanegol wedi cael ei adrodd i'r Aelodau o'r blaen, a chaiff y costau ariannu cyfalaf ychwanegol eu gwrthbwyso gan gyllid refeniw.

50 Yn 2015-16, a hynny er mwyn lleihau costau ariannu cyfalaf, defnyddiwyd £340k o'r gronfa gyfalaf a £641k o'r tanwariant refeniw.

## ARGYMHELLION

51 Bod yr Aelodau'n nodi:-

(i) y penderfyniad blaenorol i ariannu'r rhaglen gyfalaf yn rhannol o'r refeniw fel y nodir ar dudalen 3 o Atodiad A;
(ii) y trosglwyddiadau rhwng y cronfeydd a'r darpariaethau fel y nodir yn Atodiad B.